**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1657 (Cy. 155)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 2 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym yn unol â erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 23(9) a 94(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 35(3), Tabl 1, o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013 a daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

### Diwygio Deddf Addysg 1996

**2.**—(1) Yn adrannau 444A neu 444B o Ddeddf Addysg 1996 dileer y geiriau "in England" ym mhob man lle y maent yn digwydd.

(2) Yn adran 569(2B) o Ddeddf Addysg 1996 yn lle "or 336" rhodder ", 336, 444A or 444B".

(**1**) 2003 p.38 ("Deddf 2003").

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adran hon i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") (p.32). Mae'r weithdrefn yn Neddf 2003 ar gyfer gwneud y Gorchymyn wedi ei haddasu gan Dabl 1 o baragraff 35(3) o Atodlen 11 i Ddeddf 2006 fel bod rhaid i Orchymyn a wneir o dan adran 29(3) o Ddeddf 2003 gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

2 Gorffennaf 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 23(9) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddileu'r geiriau "in England" o adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996").

Mae adrannau 444A a 444B o Ddeddf 1996 yn darparu pŵer i gwnstabl heddlu, swyddog o'r awdurdod lleol neu'r pennaeth (neu aelod o staff a awdurdodir gan y pennaeth) i ddyroddi, yn unol â'r rheoliadau, hysbysiadau cosb mewn cysylltiad â thriwantiaeth o'r ysgol (ac o fannau eraill lle y caiff addysg ei darparu).

Mae dileu'r geiriau "in England" yn golygu y bydd y darpariaethau hynny yn gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i adran 569 o Ddeddf Addysg 1996 er mwyn ei gwneud yn glir mai swyddogaethau Gweinidogion Cymru yw'r swyddogaethau o dan adrannau 444A a 444B o Ddeddf 1996.